# Cyngor Cymuned **Ceulanamaesmawr** Community Council

**Cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd**
**nos Lun 30 Mawrth 2026 am 7.30 p.m. yn Neuadd Goffa Tal-y-bont**

1. **Croeso'r Cadeirydd**

   **Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Enoc Jenkins (Is-gadeirydd – yn y Gadair), Siôn Pennant Jones, Catrin Davies (Cyng. Sir), Nia Richards ac Eryl Bray, a'r Cyng. Mererid Watson a Rhian Evans (o bell)

   **Yn cofnodi:** Lynwen Rees Jones

   Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb.

2. **Ymddiheuriadau**

   Y Cynghorwyr Ellen ap Gwynn, Bleddyn Huws ac Elgan Evans.

3. **Datgan Buddiant Personol**

   Datganwyd buddiant gan y Cyng. Enoc Jenkins a Rhian Evans mewn perthynas â phwynt **9** (Cynllunio).

4. **Cofnodion y Cyfarfod diwethaf**

   i) Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2026, yn gywir. Cynnig: Catrin Davies; Eilio: Nia Richards

5. **Materion yn codi:**

   i) Materion a adroddwyd trwy Clic i'r Cyngor Sir:
      a) Roedd y twll ger Glanrafon wedi cael ei lenwi. Roedd Rali Ceredigion wedi rhoi gwybod bod llwybr y rali wedi cael ei ddiwygio ac na fyddai'r ceir yn rasio heibio i Glanrafon wedi'r cyfan. Fodd bynnag, byddai nifer o wylwyr yn defnyddio'r ffordd ac roedd y Cyngor o'r farn ei bod yn beryglus o hyd.
      b) Roedd y tyllau ar ffordd Pen-cwm a ger Cwmere wedi cael eu trwsio.

   ii) Mynwent Nazareth: Roedd y Cyng. Nia Richards wedi cadarnhau bod y ffiniau a nodir yn y dogfennau diweddaraf yn gywir. Roedd y cyfreithiwr wedi nodi nad oedd angen i'r £10,000 a addawyd gan yr Eglwys Bresbyteraidd fod yn rhan o'r contract trosglwyddo ac wedi cadarnhau mai'r Eglwys a fyddai'n talu'r fioedd cyfreithiol. Roedd hefyd wedi nodi nad oedd yr Eglwys yn fodlon trosglwyddo unrhyw arian o gronfa Capel Nazareth ar gyfer gwaith cynnal a chadw. Roedd y Cyng. Bleddyn Huws wedi nodi anfodlonrwydd yn hyn o beth, a chan nad oedd ef na'r Cyng. Ellen ap Gwynn, sef y ddau ddarpar lofnodwr, yn bresennol, penderfynwyd gadael y mater ar y bwrdd tan y cyfarfod nesaf.

   iii) Roedd y Cyngor Sir wedi rhoi gwybod na fyddai'r grant ar gyfer tiroedd claddu yn berthnasol yn achos mynwentydd y Tabernacl a Nazareth. Trafodwyd y posibilrwydd o chwilio am ffynonellau cyllid eraill.

6. **Adran 6 – Bioamrywiaeth**

   Roedd y darn ar fioamrywiaeth ar gyfer cais y Loteri wedi cael ei ysgrifennu. Nododd y Cyng. Nia Richards fod Grŵp Gwyrddio Aberystwyth wedi gosod plac wrth gae chwarae Plas-crug yn rhoi gwybodaeth am goed. Trafodwyd y posibilrwydd o wneud rhywbeth tebyg ger y Cae Bach yn rhoi hanes y dderwen hynafol.

7. **Gohebiaeth**

   Roedd y Clerc wedi anfon pob gohebiaeth electronig berthnasol ymlaen at y Cynghorwyr yn ystod y mis. Nodwyd y canlynol yn benodol:

   i) Roedd Rali Ceredigion wedi rhoi gwybod am y llwybr newydd ar gyfer y rali.

ii) Roedd yr hysbysiad archwilio wedi dod i law. Cynigiwyd holi Bryn Smith a fyddai'n barod i fod yn archwilydd mewnol unwaith eto eleni.

**8. Materion ariannol:**

i) Adroddiad ariannol: roedd y Clerc wedi dosbarthu manylion sefyllfa ariannol y Cyngor ymlaen llaw. Roedd y sefyllfa ar 30-03-2026 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Y cyfrif cyfredol | £1,015.91 |
| Y cyfrif cadw | £78.67 |
| Cyfrif y Tabernacl | £4,654.99 |
| Cyfrif Cae Bach | £18,455.86 |
| Arian mân | £395.69 |
| Cyfanswm | **£24,601.12** |

Roedd £3,697.53 i'w dalu cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Bydda ad-daliad y TAW a grant y fynwent yn sicrhau gwarged erbyn diwedd mis Ebrill, ond, yn y cyfamser, penderfynwyd trosglwyddo £3,000 arall o gronfa Cae Bach dros dro i dalu'r anfonebau.

ii) Incwm ers y cyfarfod diwethaf:
Sêl pen bwrdd – £377.84
Grant Cronfa Leri – £4,000

iii) Anfonebau i'w talu:
a) Zurich Municipal, yswiriant – £1,552.43
b) Aelodaeth ULlC – £213
c) Nia Richards, costau Cwtsh Cynnes – £21.50
d) Llogi'r Neuadd Goffa, Ionawr-Mawrth – £385
e) Cyflog y Clerc + treth incwm, Ionawr-Mawrth – £1,445.60

Nodwyd bod ffi o £50 wedi'i godi i logi'r Neuadd ar gyfer y sêl pen bwrdd, ond bod hynny'n ormod gan na chodwyd tâl wrth y drws. Penderfynwyd yn unfrydol gymeradwyo'r holl daliadau uchod ar yr amod bo'r anfoneb ar gyfer llogi'r Neuadd Goffa yn cael ei haddasu'n briodol.
Cynnig: Siôn Pennant; Eilio: Eryl Bray

**9. Cynllunio**

*Datganodd y Cyng. Enoc Jenkins a Rhian Evans fuddiant yn y mater hwn.*

Cais A260091: cais gan gwmni Bute Energy i osod mast ger Brynmawr i gasglu data ar y tywydd am gyfnod o bum mlynedd. Byddai'r gwifrau i'w ddal yn ei le yn cael eu trin fel bod adar yn gallu eu gweld. Byddai matiau pwrpasol yn cael eu gosod ar lawr i arbed y tir/planhigion yn ystod y gwaith o godi'r mast. Byddai rhywrai'n cerdded y tir i nodi unrhyw ddifrod. Penderfynwyd cyflwyno 'Dim sylw' gan nodi na fu'n bosibl llunio barn bendant mewn perthynas â'r effaith ar fioamrywiaeth oherwydd diffyg manylion.

**10. Y Caeau Chwarae**

i) Ymgyrch Cae Bach: codwyd dros £350 yn ystod y sêl pen bwrdd ar 28 Mawrth. Byddai sêl planhigion yn cael ei gynnal ar 25 Ebrill.

ii) Adroddiadau misol:
- Bont-goch: roedd 9 polyn ffens a 3 pholyn gât wedi pydru. Nid oedd unrhyw waith trwsio wedi cael ei wneud. Trafodwyd gofyn i William Jones am amcanbris am y gwaith hwn, a hefyd am drwsio'r fainc ym Mont-goch.
- Cae Bach: roedd y ffens ar hyd gwaelod y cae ychydig yn rhydd ond yn annhebygol o ddisgyn. Roedd y bin halen wedi cael ei symud.

**11. Unrhyw Fater Arall**

i) Roedd angen styllen newydd ar y fainc ger Woodlands – Enoc i holi William Jones ynghylch trwsio hon hefyd.

ii) Nodwyd bod pobl yn parcio ar y pafin yn Nhal-y-bont, ac mai mater i'r heddlu yw hyn yn hytrach nag i'r Cyngor.

iii) Mae 3 neu 4 cerbyd yn parcio ar y pafin islaw'r Emporiwm yn rheolaidd, a thrafodwyd a ddylid gostwng y cyrbin a phaentio llinellau pwrpasol. Y Cyng. Catrin Davies i holi Asiantaeth y Priffyrdd.

iv) Roedd y sietyn ger Pen-lôn wedi tyfu'n fawr ac yn rhwystro'r pafin. Awgrymwyd anfon llythyr at berchnogion y ddau eiddo dan sylw yn gofyn iddynt docio'r tyfiant.

**12. Dewis enillwyr y Clwb 200**

Defnyddiwyd ap cynhyrchu haprifau i ddewis enillwyr mis Mawrth fel a ganlyn:
$1^{af}$ – 144, Alan Wilson (£50); $2^{il}$ – 201, John Evans (£20); $3^{edd}$ – 16, Sandra Laverty (£10)
Cymeradwywyd talu'r gwobrau o arian mân Cae Bach.

**13. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf am 7.30 p.m. ar 27 Ebrill 2026 yn Neuadd Goffa Tal-y-bont.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30 p.m.

Llofnodwyd: ______________________ Dyddiad: ______________________